# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 2 Rhagfyr 2014** |
| Amser: | **09.03 – 10.45** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/2467) yn:
**http://senedd.tv/cy/2467**

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar AC (Cadeirydd)**<br>**William Graham AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Alun Ffred Jones AC**<br>**Julie Morgan AC**<br>**Jenny Rathbone AC**<br>**Aled Roberts AC**<br>**Sandy Mewies AC** |
| Tystion: | **Gareth Jones, Llywodraeth Cymru**<br>**Andrew Slade, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Meriel Singleton (Ail Glerc)**<br>**Leanne Hatcher (Ail Glerc)**<br>**Emma Giles (Swyddfa Archwilio Cymru)**<br>**Matthew Mortlock (Swyddfa Archwilio Cymru)**<br>**Andy Phillips (Swyddfa Archwilio Cymru)**<br>**Huw Vaughan Thomas (Archwilydd Cyffredinol Cymru)** |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 Papurau i’w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 3 Glastir

3.1 Craffodd y Pwyllgor ar waith Gareth Jones, Cyfarwyddwr Cyffredinol Dyfodol Cynaliadwy Llywodraeth Cymru ac Andrew Slade, Cyfarwyddwr Amaethyddiaeth, Bwyd a'r Môr.

3.2 Cytunodd Gareth Jones i ddarparu'r canlynol i'r Pwyllgor:

- Nodyn ar y targedau diwygiedig y disgwylir i Glastir eu cyrraedd, a sut y bydd yn monitro a yw'n cyrraedd y targedau hynny, yn dargedau bioamrywiaeth neu'n fathau eraill o dargedau.
- Yr amser y mae arolwg yn ei gymryd ar gyfartaledd.
- Nifer y cosbau trawsgydymffurfio a chyfanswm y dirwyon dros y blynyddoedd diwethaf.
- Nodyn ar faint o geisiadau am dir sydd i'w adael heb ei ffermio sydd wedi'u gwrthod.
- Trosolwg o'r camau sy'n cael eu cymryd i helpu gyda cheisiadau ar-lein.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Glastir: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru.

## 6 Blaenraglen waith

6.1 Trafododd yr Aelodau y flaenraglen waith ar gyfer tymor y gwanwyn, a gwnaed nodyn ohoni.

## 7 Craffu ar Gyfrifon y Comisiynwyr ar gyfer 2013-14: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

7.1 Cytunodd yr Aelodau i lunio adroddiad byr ar Gyfrifon y Comisiynwyr.